WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhagfyr 2010

**Awduron: Philip Jones, Ena Lloyd a Stephen Lisle**

**Cyf: 602A2010**

# Arlwyo mewn Ysbytai

# **Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

Ein casgliad cyffredinol yw, er bod eisoes ffocws proffesiynol cryf ar faeth sy'n arddangos llawer o arferion da, mae angen sefydlu trefniadau cynllunio a busnes arlwyo cyson, a mynd i'r afael ag amrywiadau mewn safonau ar lefel ward.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb ac Argymhellion** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol**<br>Mae agenda ar gyfer maeth wedi'i nodi'n glir ar draws y Bwrdd Iechyd, er bod angen sefydlu fframwaith cynllunio a busnes cyson ar gyfer arlwyo | 8 |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**<br>Mae trefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith er bod systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau yn amrywio, gan awgrymu bod potensial i sicrhau gwell cysondeb a gwella effeithlonrwydd | 11 |
| **Dosbarthu bwyd i'r ward**<br>Mae'r rhan fwyaf o wardiau'n derbyn bwyd mewn cyflwr da er bod lle i wella profiad cleifion o hyd | 18 |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**<br>Mae rheolwyr wardiau'n canolbwyntio'n glir ar yr angen i sicrhau cymorth priodol o ran arlwyo a maeth, er bod perfformiad yn amrywio ac ni chofnodwyd rhai agweddau ar statws maethol cleifion | 21 |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth**<br>Mae barn cleifion ar fwyd ysbyty a gwasanaethau arlwyo'n cael ei gasglu mewn sawl ffordd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud hyn yn fwy cyson gan rannu'r canlyniadau yn ehangach | 25 |
| **Atodiadau** | |
| Y dull archwilio | 27 |
| Cymharu costau | 29 |
| Profiad cleifion | 41 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

## Crynodeb

1. Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion ac mae prydau bwyd maethlon, o safon, yn gwneud cyfraniad allweddol at y broses o adsefydlu a gwella cleifion. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgysylltu nifer o brosesau'n drwyadl gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Rhaid cael cyfathrebu da ar draws y grwpiau amrywiol o staff sy'n rhan o'r gwaith, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Dylai'r canlyniad fod yn wasanaeth arlwyo hyblyg, cost-effeithiol sy'n cynnig dewis da o brydau bwyd maethlon i ateb gofynion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maeth cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwyta a mwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n eu hannog i fwyta.
3. Mae pwysigrwydd bwyd ysbyty i helpu gwellhad cleifion wedi cael ei gydnabod mewn nifer o fentrau gan Lywodraeth y Cynulliad. Y fenter ddiweddaraf yw Llwybr Gofal Maeth Ysbytai a datblygiad siartiau cofnodi bwyd Cymru gyfan i gofnodi cymeriant bwyd a diod. Hefyd, cafwyd rhaglen hyfforddi *Gwella Gofal Maethol* i bob rheolwr ward. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi menter *Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu* a gynlluniwyd i rymuso prif nyrsys wardiau i gael mwy o reolaeth ar ddigwyddiadau ar eu wardiau. Caiff arferion gorau mewn gofal maeth eu gwreiddio ymhellach drwy Safonau Gofal Iechyd penodol ac offeryn archwilio lefel y ward, *Hanfodion Gofal*.
4. Er bod rhai enghreifftiau calonogol o arfer da'n gysylltiedig ag arlwyo mewn ysbytai, dangosodd gwaith gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02 fod angen ailadrodd y rhain yn ehangach a chryfhau arferion mewn nifer o feysydd. Ers hynny, mae data blynyddol ar berfformiad cyfleusterau a gasglwyd gan Stadau Iechyd Cymru wedi tynnu sylw at amrywiadau sylweddol rhwng ysbytai o ran costau dyddiol bwydo claf, a phroblemau parhaus gyda gwastraffu bwyd – gadawyd tua 880,000 o brydau heb eu cyffwrdd yn 2008-09. Awgrymodd data Stadau Iechyd Cymru hefyd fod y broses o gyflwyno arfer da cydnabyddedig, fel amser bwyd wedi'i ddiogelu a dadansoddiad maethol o fwydlenni yn anghyson.
5. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu felly ei bod hi'n bryd cynnal gwaith archwilio pellach ar arlwyo mewn ysbytai i adolygu cynnydd ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, ac i archwilio i ba raddau y mae arferion a nodwyd yn Llwybr Gofal Maeth Ysbytai yn cael eu cyflwyno.
6. Ceisiodd ein hadolygiad bennu a oedd ysbytai yng Nghymru'n darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig. Edrychodd ein gwaith archwilio ar 'gadwyn fwyd' arlwyo ysbyty o'r gwaith cynllunio a chaffael i ddosbarthu'r bwyd i'r ward a rheoli amser prydau bwyd.

7. Mae ein gwaith gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) wedi cynnwys gwaith maes yn Ysbyty Llwynhelyg (YLl), Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru (YCGC), Ysbyty Bronglais (YB), ac Ysbyty Tywysog Philip (YTP), gydag ymweliadau â'r wardiau canlynol.

**Ffigur 1: Wardiau yr ymwelwyd â hwy**

| Ysbyty | Ward |
|---|---|
| YCLl | 4 |
| YCLl | 7 |
| YCLl | 11 |
| YCGC | Padarn |
| YCGC | Preseli |
| YCGC | Gwenllian |
| YB | Rheidol |
| YB | Ystwyth |
| YB | Owain |
| YTP | UDU |
| YTP | 4 |
| YTP | 5 |

8. Mae canfyddiadau ein harchwiliad yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ariannol sy'n ymwneud ag elfennau'r gwasanaeth arlwyo ar gyfer cleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion ar gyfer ein cyfnod cyfeirio sef 2008-09. Rydym yn cydnabod, yn dilyn y cyfnod hwnnw, bod set unigol o drefniadau cyfrifyddu wedi'u cyflwyno a bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel rhan o'n gwaith parhaus gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu sicrwydd ariannol priodol.

9. Hefyd, aethom ati i gynnal arolygon cleifion i gasglu eu profiad o fwyd ysbyty. Mae rhagor o fanylion am y dull archwilio yn Atodiad 1.

10. Ein casgliad cyffredinol yw, er bod eisoes ffocws proffesiynol cryf ar faeth sy'n arddangos llawer o arferion da cydnabyddedig, mae angen sefydlu trefniadau cynllunio a threfniadau busnes arlwyo cyson, ac mae angen mynd i'r afael ag amrywiadau mewn safonau ar lefel ward.

11. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae agenda maeth wedi'i nodi'n glir ar draws y Bwrdd Iechyd, er bod angen sefydlu fframwaith cynllunio a busnes cyson ar gyfer arlwyo;
- mae yna drefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith er bod systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau yn amrywio, gan awgrymu bod potensial i sicrhau gwell cysondeb a gwella effeithlonrwydd;
- mae'r rhan fwyaf o'r wardiau yn derbyn bwyd mewn cyflwr da er bod lle i wella profiad cleifion o hyd;
- mae rheolwyr wardiau'n canolbwyntio'n glir ar yr angen i sicrhau cymorth priodol o ran arlwyo a maeth, er bod perfformiad yn amrywio ac ni chofnodwyd rhai agweddau ar statws maethol cleifion; ac

- mae barn cleifion am fwyd ysbyty a’r gwasanaethau arlwyo yn cael ei gasglu mewn sawl ffordd ac mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud hyn yn fwy cyson gan rannu’r canlyniadau yn ehangach.

12. Wrth ffurfio’r casgliadau hyn, nodwyd bod y gwasanaeth arlwyo a’r ffordd y mae’r Bwrdd Iechyd yn darparu ei wasanaethau yn cynnwys nifer o gryfderau allweddol. Mae’r rhain yn cynnwys:
    - arweiniad proffesiynol cadarn gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth (EDNM) ar faterion yn ymwneud â maeth;
    - ymrwymiad clir ar draws pob grŵp proffesiynol, ar bob lefel, i’r agenda maeth ac arlwyo; a
    - fframwaith strategol sefydliadol clir i weithredu gwelliant ym maes arlwyo.

13. Mae nifer o feysydd allweddol y gellid eu gwella gan gynnwys y canlynol:
    - diffyg fframwaith cynllunio a busnes arlwyo cyson ar draws y Bwrdd Iechyd a all rwystro’r gwaith o wneud penderfyniadau cyson;
    - arafwch datblygiad o ran cynllunio bwydlenni a datblygu polisi;
    - diffyg polisi cymhorthdal bwyd ar gyfer bwyd i’r rhai nad ydynt yn gleifion yn arwain at gymhorthdal o £551,474 gan y Bwrdd Iechyd;
    - amrywiadau ym mherfformiad wardiau ynglŷn â’r defnydd o amser bwyd wedi’i ddiogelu;
    - y fformat a’r prosesau cofnodi ar gyfer gwybodaeth sy’n ymwneud â maeth cleifion yn y nodiadau nyrsio sy’n ei gwneud hi’n anoddach i wybod beth yw statws maethol claf a’i fonitro; a
    - rhannu gwybodaeth rhwng grwpiau staff o fewn ysbytai ac mewn ysbytai gwahanol am faterion arlwyo a maeth a all fod yn cael ei rhwystro gan ffiniau proffesiynol a sefydliadol.

14. Mae’r adroddiad manwl sy’n dilyn y crynodeb hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am bob un o’r meysydd y bu’r archwilwyr yn edrych arnynt.

## Argymhellion

15. Cododd nifer o argymhellion o'r adolygiad hwn. Cânt eu rhestru isod.

| | |
|---|---|
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol** | |
| A1 | Cryfhau trefniadau cynllunio ar gyfer arlwyo er mwyn sicrhau agenda glir a chyson ar gyfer y gwasanaeth arlwyo ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| A2 | Lleihau'r amser a gymer i ddatblygu a sefydlu prosesau arlwyo a maeth newydd. |
| A3 | Gwella trefniadau craffu'r Bwrdd ar gyfer monitro risgiau a pherfformiad arlwyo a maeth. |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | |
| A4 | Cyflwyno polisi cymhorthdal clir i bennu'r fframwaith ar gyfer cyflenwi gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | |
| A5 | Datblygu trefniadau cyfriflyfr cyson ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod digon o wybodaeth fusnes gadarn ar gael am arlwyo. |
| A6 | Gwella'r trefniadau monitro gwastraff bwyd presennol i adlewyrchu effeithlonrwydd cynhyrchu yn gywir a helpu i nodi'r potensial i wella'r systemau cyfredol. |
| **Dosbarthu bwyd i'r ward** | |
| A7 | Cyflwyno amserau bwyd wedi'u digoleu ar gyfer pob amser bwyd yn yr holl wardiau priodol er mwyn efelychu'r dull a fabwysiadwyd yn y wardiau gorau. |
| A8 | Atgyfnerthu'r angen i lanhau dwylo cleifion. |
| A9 | Sicrhau bod maeth priodol yn cael ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwyo sy'n gweithio ar y wardiau er mwyn gwella'u hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau wardiau. |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | |
| A10 | Atgyfnerthu'r angen i fesur pwysau a thaldra cleifion er mwyn cyfrifo Mynegai Màs y Corff (BMI) cysylltiedig cleifion. |
| A11 | Gwella fformat a'r mathau o wybodaeth sy'n ymwneud â maeth a gofnodir yn y nodiadau nyrsio i gleifion. |
| A12 | Datblygu dulliau ymarferol i gynorthwyo'r gwaith o gwblhau siartiau cofnod bwyd a siartiau mewnbwn/allbwn hylif yn rheolaidd. |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** | |
| A13 | Cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am farn cleifion ar y gwasanaeth rhwng rheolwyr wardiau a'r gwasanaeth arlwyo. |
| A14 | Cynnwys cleifion yn llawn wrth ddatblygu'r gwasanaeth arlwyo, gan ddatblygu'r profiadau cadarnhaol diweddar o gynnwys cleifion. |

## Trefniadau rheoli a chynllunio strategol

16. Mae agenda ar gyfer maeth wedi'i nodi'n glir ar draws y Bwrdd Iechyd, er bod angen sefydlu fframwaith cynllunio a busnes cyson ar gyfer arlwyo. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
    - mae yna arweiniad proffesiynol cryf mewn perthynas â maeth cleifion ac mae polisi maeth sengl wedi'i ddrafftio ar draws y Bwrdd Iechyd;
    - mae'r gwasanaethau arlwyo lleol yn cael eu rheoli'n dda o fewn strwythurau lleol ar wahân ond nid oes yna fframwaith busnes a chynllunio sefydliadol sengl ar gyfer y gwasanaeth arlwyo;
    - mae staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys maeth arbenigol a therapyddion lleferydd ac iaith yn cael eu defnyddio'n dda yn lleol yn y prosesau arlwyo;
    - mae'r gwaith o ddatblygu bwydlenni wedi cymryd mwy o amser i'r gwblhau nag y tybiwyd yn wreiddiol er bod trefniadau bellach yn fwy cyson ers cyflwyno bwydlen sengl i gleifion ar draws y sefydliad; ac
    - mae yna gyfle i wella'r wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei derbyn am berfformiad y gwasanaethau arlwyo fel y gellir craffu yn fwy cadarn ar risgiau a heriau.
17. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 1: Trefniadau rheoli a chynllunio strategol**

| Ymarfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynllunio gwasanaeth** | | |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaethau a pholisïau clir ar arlwyo a maeth. | ✓/✗ | Mae gan y Bwrdd Iechyd agenda glir ar gyfer maeth sy'n cael ei harwain gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth (EDNM). Mae fersiwn drafft o strategaeth maeth sengl wedi'i baratoi.<br>Mae gwasanaethau arlwyo lleol yn cael eu rheoli'n dda, ar wahân, o fewn strwythur newydd y Sir. Fodd bynnag, nid oes fframwaith cynllunio a busnes arlwyo yn sail i drefniadau arlwyo'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi creu ansicrwydd yn y gwasanaeth arlwyo oac ynglŷn â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddatblygu.<br>Efallai y bydd swydd gwasanaethau gwesty proffesiynol arfaethedig yn rhoi cyfle i ddatblygu dull cydgysylltiedig, er y bydd hyn yn bodoli o fewn trefniadau rheoli llinell ar wahân yn strwythurau'r sir. |

| Ymarfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynllunio gwasanaeth (parhad)** | | |
| Mae cynllun y bwydlenni yn adlewyrchu'r strategaeth a'r polisi. | ✓/✗ | Yn y gorffennol, roedd y gwaith o ddylunio bwydlenni yn cael ei gyflawni yn y Siroedd ac yn adlewyrchu polisi maeth a oedd yn bodoli eisoes ym mhob ardal. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a llunio polisi maeth sengl.<br>Yn ddiweddar, mae bwydlenni Sir Gaerfyrddin wedi'u mabwysiadu gan ddwy Sir arall y Bwrdd Iechyd. Mae yna rai gwahaniaethau o hyd sydd angen sylw os yw'r newid hwn yn mynd i fod yn gwbl effeithiol. Er enghraifft, nid oes gan YCLI unrhyw 'gogyddion deiet' sy'n arbenigo yn y gwaith o baratoi dewisiadau ansafonol.<br>Mae adolygiad o ddeietau wedi'u haddasu o ran ansawdd ar y gweill. Mae hyn wedi codi materion a all gymryd sawl mis i'w cyflawni. |
| Mae deietegwyr a chlinigwyr yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o ddatblygu polisi a strategaethau a chynllunio bwydlenni | ✓ | Mae swydd ddeietegol arweiniol (rhannu swydd) ar gael yn y Bwrdd Iechyd, sy'n darparu'r ffocws proffesiynol a gweithredol i'r staff hynny ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae deietegwyr a chlinigwyr eraill yn asesu'r holl fwydlenni, eu helfennau a'u cynhwysion ac yn eu dilysu.<br>Deietegwyr oedd un o'r partïon arweiniol yn y gwaith o ddatblygu polisi maeth y Bwrdd Iechyd, sy'n cael ei ddatblygu i gynnwys materion maeth cymunedol a gofal sylfaenol. Caiff y drafft diwygiedig ei gwblhau yn ystod ail hanner 2010.<br>Ym mhob ardal, waeth beth oedd y trefniadau lleol, dywedodd y staff bod y prosesau ar gyfer datblygu a newid bwydlenni wedi cymryd mwy o amser nag oeddynt yn ei ddymuno (wedi cymryd dwy flynedd mewn un achos). Cydnabyddir y byddai dull 'gorchwyl a gorffen' yn cynorthwyo i gyflymu'r newid er nad yw'r gwasanaeth deietegol yn ffynhonnell benodol ar gyfer y gwaith hwn. |
| Mae'r strategaeth yn nodi'r dull mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gynhyrchu bwyd. | ✓ | Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynhyrchu a chyflenwi bwyd yn amrywio ar draws y Siroedd. Nid oes unrhyw gynllun penodol i gysoni trefniadau ar gyfer cynhyrchu bwyd. |
| Tystiolaeth o gynllunio gweithlu yn ôl y galw am staff arlwyo. | ✓ | Mae lefelau staffio wedi'u hen sefydlu ac yn cysylltu'n fras â gofynion cynhyrchu gweithredol.<br>Mae yna wahaniaethau yn y cyflenwadau staff yn y gwahanol wasanaethau arlwyo yn y sefydliad, ac mae yna farn bod y cyflenwad staff yn uwch yn YCGC, er y gall hyn adlewyrchu buddsoddiad mewn staff megis cogyddion deiet arbennig. |

| Ymarfer digwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Trefniadau rheoli** | | |
| Mae atebolrwydd gweithredol dros arlwyo wedi'i nodi'n glir. | ✓ | Mae'r EDNM yn cael ei nodi'n glir fel yr aelod o'r Bwrdd sy'n gyfrifol am faeth.<br>Yn yr ymddiriedolaeth gyfun flaenorol, roedd y gwasanaethau arlwyo yn adrodd trwy'r strwythur nyrsio yn uniongyrchol bron i'r EDNM. Roedd rheolwyr arlwyo yn ystyried hyn yn drefniant effeithiol gan ei fod yn eu dwyn yn agosach at brosesau gwneud penderfyniadau'r weithredaeth.<br>Mae cyflwyno strwythur rheoli lleol ar sail sir wedi creu mwy o bellter rhwng rheolwyr arlwyo a'r weithredaeth sydd bellach yn atebol am y gwasanaethau hyn i'r Bwrdd Iechyd.<br>Mae llinell o gyfrifoldeb proffesiynol yn dal i gael ei thynnu rhwng rheolwyr arlwyo a'r EDNM ar faterion maeth. |
| Mae'r Bwrdd yn derbyn digon o wybodaeth am berfformiad ac ymarfer mewn perthynas ag arlwyo a maeth. | ✓/✗ | Mae adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd wedi amlygu'r agenda maeth yn glir, er nad yw'n glir bod materion gweithredol y gwasanaeth arlwyo mor amlwg ag y dylent fod. |
| Mae grŵp amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu i oruchwylio'r modd y mae'r gwasanaeth arlwyo yn cael ei gyflawni. | ✓ | Mae'r Grŵp Llywio Maeth yn gryf ac yn gymharol drefnus. Cydnabyddir yr angen i newid i gynnwys gofal sylfaenol o fewn cwmpas ei weithgareddau.<br>Mae'r grwpiau maeth gweithredol ym mhob sir i gael eu cryfhau trwy gynnwys y sector gofal sylfaenol ac annibynnol.<br>Cydnabu'r rheolwyr arlwyo nad oes unrhyw allu i wneud penderfyniadau gweithredol effeithiol i arwain y gwahanol wasanaethau arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn yr un cyfeiriad ac eithrio trefniadau ewyllys da sy'n bodoli rhyngddynt hwy. |
| Penodwyd nyrs arwain i helpu i weithredu'r strategaeth a sicrhau arferion maeth da. | ✓ | Mae Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Nyrsio ar gyfer Ymarfer Nyrsio yn cynorthwyo'r EDNM ar faterion maeth. Mae yna ddwy nyrs faeth arbenigol hefyd. |
| Mae disgrifiadau swyddi ac ystod cyflogau i staff arlwyo wedi'u cysoni ledled y Bwrdd Iechyd. | ✓ | Mae goblygiadau ariannol cysoni trwy A4C yn dal dan ystyriaeth. Cafodd gwaith cysoni ei wneud gan yr ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli eisoes ond y farn yw nad yw'r effaith wedi bod yn gyson i'r holl staff ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| Mae lefel absenoldebau oherwydd salwch ymhell o fewn y lefelau derbyniol ac yn cael eu rheoli'n dda. | ✓ | Mae absenoldeb oherwydd salwch yn amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei reoli'n gymharol dda. Mae rhywfaint o gyfle i rannu arferion ar ddulliau effeithiol o reoli absenoldebau staff. |

## Caffael, cynhyrchu a rheoli costau

18. Mae trefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith er bod systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau yn amrywio, gan awgrymu bod potensial i sicrhau gwell cysondeb a gwella effeithlonrwydd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
    - mae trefniadau caffael arlwyo wedi'u rheoli'n dda ac mae trefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd yn dod o ffynonellau diogel a dibynadwy;
    - hyd yma, nid yw'r bwrdd iechyd wedi datblygu polisi cynaliadwyedd penodol ond yn hytrach mae'n defnyddio trefniadau contract cenedlaethol;
    - mae trefniadau cynhyrchu bwyd yn dibynnu'n helaeth ar systemau papur â llaw yn hytrach na defnyddio TG, a gall hyn gymryd llawer o amser;
    - mae'r gwaith o reoli costau wedi'i seilio ar gyfriflyfrau'r ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli eisoes a byddant yn gryfach trwy gyflwyno cyfriflyfr sengl, polisi prisio bwyd a pholisi cymhorthdal ar gyfer prydau bwyd nad ydynt ar gyfer cleifion;
    - mae gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion yn cael cymhorthdal o £551,474 ar hyn o bryd; ac
    - mae systemau ar waith i fonitro gwastraff er bod angen eu gwneud yn fwy cadarn.
19. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 2: Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Caffael** | | |
| Mae'r bwyd yn cael ei gaffael gan gyflenwyr a gymeradwywyd, yn unol â threfniadau a nodwyd yn Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan y GIG. | ✓ | Mae'r rhan fwyaf o'r bwyd yn cael ei gaffael trwy gontractau Cyflenwadau Iechyd Cymru (llai felly yng Ngheredigion), sy'n unol â chanllawiau arfer da.<br>Mae unrhyw archebion contract yn cael eu casglu gan swyddogaeth caffael y Bwrdd Iechyd fel rheol. Nododd y rheolwyr bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch bwyd gan y cyflenwyr hyn. |
| Mae trefniadau caffael cynaliadwy ar waith. | ✓ | Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu ei bolisi caffael cynaliadwy ei hun, er mae'r contractau Cymru gyfan a Chyflenwadau Iechyd Cymru yn bodloni canllawiau Llywodraeth y Cynulliad. |
| Mae'r trefniadau caffael yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r bwydlenni a gynlluniwyd. | ✓ | Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau caffael cadarn i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r bwydlenni a gynlluniwyd, mae'r rhain yn cynnwys manyleb ddeietegol yn y contract, cyfnodau hysbysu priodol ar gyfer newidiadau cyflenwyr i gontractau a phrynu rhai cynhyrchion ymlaen llaw i sicrhau parhad bwydlenni am brisiau cystadleuol. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynhyrchu** | | |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system arlwyo gyfrifiadurol i hwyluso'r gwaith o gynllunio a rheoli cynhyrchiant. | ✓/✗ | Mae'r systemau ar wahân ar hyn o bryd er bod rhywfaint o gysondeb ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| Cleifion yn archebu prydau bwyd llai na 24 awr ymlaen llaw. | ✓ | Mae systemau ychydig yn wahanol yn gweithredu ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Ym mhob achos nid yw cleifion yn archebu eu bwyd fwy na 24 awr cyn y pryd bwyd. Er bod hyn yn arfer derbyniol ni wnaed unrhyw waith i weld a ellid lleihau'r cyfnod. |
| Defnyddir bwydlenni safonol wedi'u costio er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd a chost. | ✓ | Mae pob cegin yn defnyddio ryseitiau safonol wedi'u costio sydd wedi'u dilysu yn ddeietegol. Mae goruchwylwyr ac weithiau deietegwyr yn monitro'r gwaith o gydymffurfio â'r ryseitiau. |
| Mae cynllun cynhyrchu ar waith i gyfeirio tasgau'r gegin. | ✓ | Mae'r broses gynhyrchu yn seiliedig ar amcangyfrif o'r nifer a gafodd fwyd o'r fwydlen flaenorol. Mae rhai mathau o fwyd yn cael eu swmp-gynhyrchu ee, rhai llysiau. |
| Mae mesurau rheoli dognau ar waith ac yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant. | ✓ | Mae'r gwaith o reoli dognau'n cael ei fonitro, er y cydnabyddir y gellir atgyfnerthu hyn trwy hyfforddiant pellach. |
| Mae ansawdd bwyd yn cael ei fonitro ar gamau allweddol yn y broses gynhyrchu. | ✓/✗ | Mae gan y ceginau gwahanol ar draws safleoedd drefniadau monitro ansawdd effeithiol ar waith, gan gynnwys cogyddion sy'n blasu'r bwyd. Hoffai'r staff arlwyo wella'r trefniadau presennol ond mae'r pwysau i fodloni gofynion cynhyrchu wedi atal datblygiad dulliau newydd. |
| **Diogelwch bwyd** | | |
| Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch bwyd (ee archwilio tymheredd bwyd). | ✓ | Mae cymysgedd o fathau gwahanol o wasanaeth ar y wardiau ar draws y Bwrdd Iechyd hy, hambyrddau a swmp-ddosbarthu. Roedd staff yn YCGC yn profi tymheredd bwyd sy'n cael ei swmp-ddosbarthu adeg ei gyflenwi i'r ward.<br>Lle mae cyfarpar yn caniatáu, mae tymheredd trolïau yn cael ei atgyfnerthu cyn gadael y gegin, a gellir ei gynnal os oes angen trwy blygio'r troli i soced ar y ward.<br>Cynhaliwyd ymarferion ansawdd bwyd yn YCLI, YCGC, YB ac YTP gan ganfod, ym mhob achos, bod tymheredd bwyd poeth yn cael ei fodloni ac yn uwch na 63°C. |
| Mae polisi Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ar waith. | ✓ | Ar waith ym mhob lleoliad |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae'r cyfleusterau arlwyo yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd lleol. | ✓ | Mae pob ysbyty wedi cael archwiliadau rheolaidd gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd. |
| Rhoi camau ar waith mewn ymateb i argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. | ✓/✗ | Y rheolwr arlwyo perthnasol sy'n gyfrifol ac mae'r camau a gymerir yn cael eu monitro trwy drefniadau rheoli llinell. Fodd bynnag, nid oedd adroddiadau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn cael eu cofnodi a'u monitro fel rhan o'r trefniadau risg a llywodraethu corfforaethol. |
| **Rheoli costau** | | |
| Mae system arlwyo gyfrifiadurol ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli a monitro'r gwasanaeth. | ✗ | Nid oes system o'r fath ar waith. |
| Mae cost y gwasanaeth arlwyo yn wybyddus ac yn cael ei monitro. | ✓/✗ | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael pedwar cyfriflyfr sy'n cynnwys y costau ar gyfer pob un o'r gwasanaethau arlwyo. Roedd y cofnodion yn y cyfriflyfrau yn cael eu creu mewn modd gwahanol ym mob achos. Mae cymariaethau costau felly'n cael eu cymhwyso trwy'r ffaith bod diffiniadau gwahanol yn cael eu defnyddio yn dibynnu ar ba ran o'r gwasanaeth sy'n cael ei archwilio.<br>Mae'r arweinydd cyllid ar gyfer materion arlwyo yn cydnabod yr angen i ddatblygu dull cyfriflyfr cyffredin ar gyfer y Bwrdd Iechyd. |
| Mae systemau archebu effeithiol a hyblyg ar waith rhwng y wardiau a'r adran arlwyo. | ✓ | Mae systemau archebu yn seiliedig ar y bwydlenni neu'r rhestri sy'n cael eu dychwelyd o'r wardiau. Mae'r bwyd a gynhyrchir yn cael ei lywio gan y wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth hanesyddol yn deillio o gynhyrchu yn y gorffennol. |
| Mae gwastraff bwyd ar wardiau'n cael ei fonitro o ran:<br>• Prydau bwyd heb eu gweini<br>• Bwyd heb ei fwyta | ✓/✗ | Gall archebu bwydlenni ar lefel wardiau (neu orarchebu) arwain at wastraff diangen.<br>Gallai mesurau i gofnodi bwyd heb ei weini fod yn fwy cynhwysfawr a chadarn a gellir mireinio'r prosesau i gofnodi bwyd heb ei fwyta. I'r perwyl hwn efallai bod potensial i rannu arferion da ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| Mae yna ddull penodedig o sicrhau cymhorthdal/cyfraniad am wasanaethau nad ydynt ar gyfer cleifion. | ✗ | Nid oes polisi cymhorthdal ar waith er bod amcan adennill costau wedi'i bennu. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae yna bolisi i brisio prydau nad ydynt ar gyfer cleifion. | ✘ | Nid yw prisiau prydau bwyd staff wedi'u safoni ar draws y Bwrdd Iechyd er bod gwaith i newid i safoni wedi cychwyn yn 2009 pan oedd y gwasanaethau arlwyo yn cael eu rheoli fel Gwasanaeth Bwrdd cyfan. Gwnaed rhywfaint o gynnydd. |
| Mae gwastraff yr ystafell fwyta'n cael ei fonitro. | ✓ | Mae dognau'r prif gwrs yn cael eu monitro ar ddiwedd pob cyfnod o weini'r prif gwrs. |

## Dadansoddi costau

20. Mae amrywiaeth sylweddol yng nghostau cyffredinol y gwasanaeth rhwng safleoedd y gwahanol ysbytai. Mae gwasanaeth Bronglais ymysg yr uchaf yng Nghymru (Ffigur 2) er bod arbedion effeithlonrwydd yn 2009-10 wedi lleihau'r costau i YCB.

21. Mae cost prydau bwyd cleifion yn amrywio rhwng y gwahanol safleoedd gyda chostau staffio cymharol uchel yn YCB a chostau cymharol uchel ar gyfer bwydydd yn YTP (Ffigur 4). Mae costau'r gwasanaeth hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru yn YCB ac yn is na'r cyfartaledd yn y tri ysbyty arall (Ffigur 5).

22. Mae'r gwasanaeth prydau bwyd nad ydynt ar gyfer cleifion yn gweithredu ar golled, ac ar draws y Bwrdd Iechyd, mae'n cael cymhorthdal o tua £551,474.


23. Ceir dadansoddiad manylach o gostau'r pedwar ysbyty yn Atodiad 2.

**Ffigur 2: Dadansoddiad o gostau'r gwasanaeth**

| Dadansoddiad | Cyfanswm cost fesul diwrnod claf (£) | Costau cleifion fesul diwrnod claf (£) | Sefyllfa fasnachu'r gwasanaeth i rai nad ydynt yn gleifion (£) |
|---|---|---|---|
| YCLI | 9.04 | 8.71 | -29,786 |
| YCGC | 9.22 | 7.89 | -150,787 |
| YCB | 16.37 | 12.30 | -236,227 |
| YTP | 11.05 | 9.10 | -134,674 |
| **Gwasaneth wedi'i gyfuno** | **10.86** | **9.16** | **-551,474** |
| **Cymru** | **11.08** | **10.04** | |


*Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 3: Cost net y gwasanaeth arlwyo fesul diwrnod claf**





*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 4: Dosbarthiad gwariant**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*


**Ffigur 5: Costau cymharol y gwasanaeth i gleifion**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 6: Cyfanswm cost arlwyo i gleifion fesul diwrnod claf 2008-09 yn ôl y dull o goginio a chyflenwi**

***SAW= staff arlwyo ar wardiau***




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

## Gwastraff bwyd

24. Roedd ein hadolygiad yn cynnwys archwiliad arsylwi ar wastraff bwyd o brydau bwyd heb eu gweini a gwastraff ar blatiau. Mesurwyd gwastraff ar blatiau drwy wrthdroi canllawiau dogfennau asesu maeth yn *Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan*. Er enghraifft, byddai pryd o fwyd y cofnodwyd bod 75 y cant ohono wedi'i fwyta at ddibenion monitro maeth yn cyfateb i wastraff o 25 y cant ar blatiau. Hefyd, dim ond os oedd y gwastraff ar blatiau yn cynnwys y brif elfen brotein ddrutach yn hytrach na dim ond llysiau y defnyddiwyd y mesur hwn. Er nad yw'r dull hwn mor gadarn â'r dull dadansoddi pwysau bwyd, mae'n cynnig ffordd ddigon cyflym a sensitif o ganfod problemau.

25. Yn gyffredinol, roedd lefelau gwastraff prydau bwyd heb eu gweini yn uwch na 10 y cant, sy'n awgrymu bod lle i ostwng y lefelau hyn i'r ysbytai sy'n perfformio orau, gan arwain at arbedion posibl o £108,517 y flwyddyn.

26. Yn yr asesiad o fwyd heb ei fwyta, roedd y lefelau'n sylweddol uwch a phe bai'r lefel hwn o wastraff yn gostwng 10 y cant gallai'r Bwrdd Iechyd arbed £299,588 pellach y flwyddyn.

27. Gall y rhesymau pam nad yw cleifion yn bwyta'u pryd bwyd fod yn gymhleth, megis newid sydyn mewn archwaeth oherwydd eu cyflwr. Mae rhesymau eraill yn ymwneud ag ansawdd y bwyd a chyfathrebu gwael rhwng wardiau ac adrannau arlwyo. Roedd sylwadau staff a chleifion yn awgrymu nad yw maint dognau yn cael eu rheoli'n dda bob amser

**Ffigur 7: Lefelau gwastraff prydau bwyd gan gynnwys rhagfynegiad o arbedion**

| Ward | Prydau heb eu gweini | Gwarstaff plât | Cyfanswm y gwastraff | Arbedion posib prydau heb eu gweini (targed o 5%) | Arbedion effeithlonrwydd posib gwastraff plât (targed o 10%) |
|---|---|---|---|---|---|
| YCLI – 4 | 13% | 27% | 40% | | |
| YCLI – 7 | 14% | 29% | 43% | | |
| YCGC – Padarn | 26% | 45% | 71% | | |
| YCGC – Preseli | 25% | 29% | 54% | | |
| YCGC – Gwenllian | 11% | 48% | 59% | | |
| YB – Rheidol | 16% | 43% | 59% | | |
| YB – Ystwyth | 0% | 40% | 40% | | |
| YB – Owain | 33% | 57% | 90% | | |
| YTP – UDU | 22% | 3% | 25% | | |
| YTP – 4 | 0% | 21% | 21% | | |
| YTP – 5 | 6% | 16% | 22% | | |
| Cyfanswm | 15% | 33% | 48% | **£108,517** | **£299,588** |

*Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Swyddfa Archwilio Cymru*

## Dosbarthu bwyd i'r ward

28. Mae'r rhan fwyaf o wardiau'n derbyn bwyd mewn cyflwr da er bod lle i wella profiad cleifion o hyd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da ac fel arfer roedd yn cael ei weini'n gyflym i'r claf;
- nid oes digon o ffocws ar baratoi cleifion ac amgylchedd y ward i dderbyn prydau bwyd;
- ym mhob ysbyty, roedd y dewisiadau bwyd safonol a werthuswyd yn ystod yr adolygiad hwn wedi'u cyflwyno'n dda ac yn flasus;
- lle mae systemau bwyd swmp ar waith roedd staff yn gwerthfwrogi'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei roi iddynt i ymateb i archwaeth cleifion pan gaiff y bwyd ei weini; ac
- ar nifer fach o wardiau nid yw cleifion yn cael cerdyn bwydlen i ddewis eu bwyd, nid yw'n glir ychwaith i ba raddau maent yn cael gwneud dewisiadau.

29. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 3: Dosbarthu bwyd i'r ward a'r claf**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward ar yr amser cywir. | ✓ | Roedd y prydau'n cyrraedd ar yr amser a drefnwyd. |
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da (ee ar y tymheredd cywir). | ✓ | Canfuom fod bwyd yn YCLI, YCGC, YB a YTP y cael ei gyflwyno'n dda ac y flasus. Canfu ein hymarfer ansawdd bwyd bod tymheredd y bwyd yn bodloni'r canllawiau ym mhob achos. |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd cywir. | ✓ | Mae systemau arlwyo ar sail cynllun gwelyau ar waith ym mhob ysbyty er eu bod yn amrywio o ran dull. Mae yna botensial i rannu dulliau a dysgu er mwyn hwyluso gwelliant.<br>Ar nifer fach o wardiau nid yw cleifion yn cael cardiau bwydlen, ac yn y sefyllfaoedd hyn mae'n llai clir pa mor effeithiol y gall cleifion ddewis eu bwyd.<br>Yn gyffredinol mae'r cyfathrebu rhwng deietegwyr, staff wardiau a staff arlwyo yn dda o ran gofynion unigol cleifion.<br>Pan fo bwyd yn cael ei swmp-ddosbarthu, roedd staff yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei ganiatáu i ymateb i archwaeth cleifion pan gaiff y bwyd ei weini. |
| Mae staff penodedig (staff gweini, staff cadw tŷ neu arlwywyr ar y ward) ar gael i helpu i weini'r prydau. | ✓ | Mae trefniadau ar draws y Bwrdd Iechyd yn amrywio. Mae'r rhan fwyaf o wardiau yn dibynnu ar gynorthwywyr gofal iechyd a nyrsys hyfforddedig i weini'r prydau bwyd. Mae gan rai wardiau staff arlwyo ar y ward.<br>Mae gan YCLI ychydig o swyddi cadw tŷ ac er nad oes unrhyw gynlluniau i ymestyn y dull hwn ar draws y Bwrdd Iechyd, mae'r swyddogaeth yn cael ei hystyried mewn adolygiadau wardiau. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant ar sut i gyflwyno bwyd. | ✓/✗ | Mae hyfforddiant cyflwyno bwyd sylfaenol yn rhan o'r hyfforddiant mewnol ar gyfer yr holl gynorthwywyr gofal iechyd. Mae'r gwaith o ddarparu hyfforddiant yn y maes hwn i nyrsys cymwysedig yn llai cyson.<br>Mae staff gwasanaethau gwesty yn cymryd rhan yn y gwaith o gyflenwi bwyd mewn rhai mannau er nad oedd rheolwyr wardiau yn glir ynghylch i ba raddau yr oeddynt wedi cael hyfforddiant ar gyflwyno bwyd. |
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd. | ✓/✗ | Dylai'r holl staff sy'n cymryd rhan yn y gwaith o weini bwyd gael hyfforddiant hylendid bwyd. Adroddwyd am drefniadau cadarn yng Nghaerfyrddin.<br>Mewn ardaloedd eraill o'r Bwrdd Iechyd roedd llai o sicrwydd ynglŷn â darparu'r hyfforddiant hwn a'r camau dilynol angenrheidiol. |
| Mae mannau cleifion yn cael eu paratoi i dderbyn prydau bwyd. | ✓/✗ | Yn ystod ein gwaith arsylwi ar y wardiau gwelwyd bod paratoadau yn cael eu cyflawni yn gyffredinol pan oedd yr aelod staff yn dod â'r bwyd i'r claf.<br>Yn ddelfrydol, dylai'r gwaith paratoi gael ei gyflawni cyn i'r bwyd gyrraedd, yn rhannol i ddangos pwysigrwydd y pryd bwyd sydd ar fin cyrraedd. Yr arfer oedd bod eitemau'r claf yn cael eu rhoi i'r naill ochr gydag un llaw a'r hambwrdd bwyd yn cael ei gario yn y llall.<br>Roedd cymhorthion i gynorthwyo bwyta (ee, cyllyll a ffyrc ac ati arbennig, gardiau platiau) ar gael ar gais i'r adrannau therapi galwedigaethol.<br>Fel rhan o gynllun gwaith y Grŵp Llywio Maeth, mae pob Sir yn sicrhau bod cyflenwad o gyllyll a ffyrc ac ati wedi'u haddasu a chymhorthion eraill ar gael yn hawdd ar y wardiau. |
| Mae cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta. | ✗ | Ychydig o dytsolaeth oedd bod staff yn annog cleifion i olchi eu dwylo cyn bwyta.<br>Mae hancesi dwylo gwlyb i olchi dwylo ar gael mewn rhai mannau, er ei bod hi'n ymddangos nad oeddynt yn cael eu defnyddio. Y rheswm am hyn yn rhannol efallai yw'r syniad ymysg staff eu bod yn ddrud i'w defnyddio. |
| Mae'r bwyd yn cael ei ddosbarthu i'r claf yn gyflym ac yn effeithlon. | ✓ | Roedd yr amser a gymer i ddosbarthu'r prydau bwyd yn amrywio er bod hyn yn cael ei wneud yn gyflym iawn, sy'n arfer da. |

## Ansawdd bwyd

30. Dylai adrannau arlwyo fod yn cynhyrchu prydau bwyd o ansawdd uchel i gleifion a dylai'r pryd gadw ei ansawdd wrth gael ei weini i glaf. Mae hyn yn golygu darparu digon o ddewis ar y fwydlen, a gweini prydau deniadol a blasus ar dymheredd addas. Dylid monitro ansawdd y seigiau'n barhaus er mwyn sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal a'u gwella.


31. Roedd ein hadolygiad yn cynnwys paneli blasu bwyd yn YCLI, YCGC, YB, ac YTP. Roedd y rhain yn cynnwys cyfuniadau amrywiol o archwilwyr, staff arlwyo, staff y wardiau, staff nyrsio arbenigol, staff deietegol, therapyddion lleferydd ac iaith, a chynrychiolwyr CIC. Trwy ddefnyddio system sgorio 1-5 syml, asesodd y panel y bwyd yn ôl:

- ei dymheredd a'i olwg;
- ei arogl, ei flas a'i ansawdd;
- a gyrhaeddodd yr eitem gywir a archebodd y claf oddi ar y fwydlen; a
- maint dogn cywir a archebwyd gan y claf.

32. Er y bydd dull o'r fath bob amser yn cynnwys rhywfaint o wrthrychedd, câi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob un o sefydliadau'r GIG yr ymwelwyd â hwy. Mae'n gyfle, felly, i allu cymharu rhwng y gwahanol safleoedd yr ymwelwyd â hwy.

33. Roedd sgôr uchaf o 100 y cant yn bosibl os oedd yr holl feini prawf a roddwyd ar brawf yn cael 'gradd 5 '. Y sgoriau yn YCLI, YCGC, YB, ac YTP oedd 91 y cant, 100 y cant, 92 y cant, a 93 y cant yn ôl eu trefn. Cafodd yr ysbytai sgôr gyson uchel ym mhob agwedd, ac maent wedi'u cynnwys yn y pedwar o'r chwe sgôr ysbyty uchaf yng Nghymru (Ffigur 8).

**Ffigur 8: Cyfanswm sgoriau'r paneli ansawdd bwyd ysbyty**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

## Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad

34. Mae rheolwyr wardiau'n canolbwyntio'n glir ar yr angen i sicrhau cymorth priodol o ran arlwyo a maeth, er bod perfformiad yn amrywio ac ni chofnodwyd rhai agweddau ar statws maethol cleifion. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae lefel dda o ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr wardiau a staff ynglŷn â phwysigrwydd maeth cleifion a'r prosesau sy'n ei gefnogi;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei offeryn sgrinio maeth ac yn bwriadu sefydlu sail tystiolaeth i gefnogi'r defnydd ohono;
- mae strwythur y nodiadau nyrsio yn amrywio'n helaeth ar draws y Bwrdd Iechyd ac nid yw'n cefnogi'r gwaith o gofnodi neu adolygu manylion maeth yn hawdd;
- nid yw'r dulliau asesu yn cynnwys cyfrifo BMI cleifion;
- mae cleifion yn cael eu pwyso fel arfer, er bod yna rai diffygion o ran pa mor gynnar y gwneir hynny ac amlder pwyso wedi hynny;
- roedd gwahanol grwpiau o staff ar gael ar adegau prydau bwyd i gynorthwyo cleifion a oedd angen cymorth i fwyta;
- ar y cyfan, mae trefniadau arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn darparu dewis ac yn ymateb yn effeithiol i ddiwallu anghenion yr unigolyn; ac
- mae cymeriant bwyd a hylif cleifion yn cael ei gofnodi'n rheolaidd, er nad yw siartiau cymeriant yn cael eu llofnodi bob amser gan nyrsys cofrestredig ar ddiwedd pob shifft.

35. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 4: Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae cleifion yn cael eu pwyso a'u sgrinio am broblemau maeth o fewn 24 awr i gael eu derbyn, drwy ddefnyddio offeryn sgrinio maethol wedi'i ddilysu. | ✓/✗ | Ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy cafwyd darlun cymysg o ran pwyso cleifion a chyfrifo mesur BMI. Nid oedd pob claf yn cael ei sgrinio ar gyfer maeth o fewn 24 awr i gyrraedd yr ysbyty.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei offeryn sgrinio maethol ei hun nad yw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyfrifo BMI. Nid yw cynllun yr offeryn sgrinio yn cynnwys hyn a phenderfynwyd peidio â'i fesur yn seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â chyfyngiadau BMI. Sefydlwyd prosiect ymchwil i sefydlu sail tystiolaeth i gefnogi'r defnydd ohono.<br>Roedd y dogfennau nyrsio presennol wedi'u sefydlu i raddau helaeth gan yr ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli eisoes. O ganlyniad, mae gwahaniaethau sylweddol yn y fformatau a ddefnyddir ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth sy'n gysylltiedig â maeth yn cael ei chofnodi fel arfer mewn dogfennau ar wahân o fewn y nodiadau nyrsio (a'r nodiadau meddygol). Nid yw'r defnydd gwasgaredig hwn yn cynorthwyo staff wrth iddynt gofnodi ac adolygu statws maethol cleifion.<br>Yn gyffredinol, nid yw statws iechyd ceg cleifion yn cael ei gofnodi yn y nodiadau. Ychydig o dystiolaeth oedd bod arferion bwyta arferol cleifion (ee, maint, hoff/cas bethau) yn cael eu cofnodi yn y nodiadau. |
| Lle bo'n briodol, mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio at ddeietegydd, a/neu at therapydd lleferydd ac iaith. | ✓ | Mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio pan gyrhaeddir trothwy asesiad. |
| Mae cynllun gofal maeth yn cael ei baratoi a'i weithredu ar sail sgôr risg maeth y claf. | ✓ | Sefydlir cynlluniau gofal i'r cleifion hynny sy'n bodloni'r meini prawf maeth perthnasol. |
| Mae trefniadau ar waith ar gyfer amser bwyd wedi'i ddiogelu. | ✓/✗ | Roedd amserau bwyd wedi'u diogelu ar waith yn y mannau yr ymwelwyd â hwy, er bod rhai elfennau o'r ymarfer yn amrywio.<br>Dywedodd rheolwyr wardiau eu bod wedi gweithio'n gyson i atgyfnerthu'r trefniadau hyn.<br>Fodd bynnag, gwnaed rhai eithriadau ee, ar wardiau llawfeddygol i hwyluso amserlen theatr.<br>Roedd rhai cyffuriau'n cael eu dosbarthu ar yr un amser ag amserau bwyd, a wrth holi ymhellach awgrymwyd nad oedd hyn yn digwydd gyda chyffuriau yr oedd yn rhaid eu cymryd gyda bwyd yn unig. Hefyd, awgrymodd staff y gallai addasu'r amserau rhyw ychydig osgoi hyn.<br>Roedd staff yn cael seibiant cyn neu ar ôl amserau bwyd cleifion ar y cyfan, er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer y broses prydau bwyd. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae trefniadau ar waith i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n gweini bwyd yn ymwybodol o anghenion maeth penodol cleifion. | ✓ | Mae staff y wardiau yn dibynnu ar gardiau bwydlen neu restr bwydlen sy'n nodi anghenion maethol arbennig. Mewn rhai wardiau, mae symbolau yn cael eu rhoi uwchben gwely'r claf.<br>Mae trefniadau hambwrdd coch ar waith mewn rhai mannau, er bod peth amheuaeth ynglŷn â pha gleifion ddylai fod yn rhan o'r dull hambwrdd coch. |
| Mae dewis da o fwyd i gleifion ar y fwydlen. | ✓ | Mae cylch bwydlen cyffredin yn cael ei fabwysiadu ar draws y Bwrdd Iechyd, yn seiliedig ar y fwydlen yn Sir Gaerfyrddin. Cymerwyd y cam hwn ar y sail bod y fformat hwn yn cynnig dewis da i'r cleifion fel y dilyswyd gan archwiliadau adborth cleifion reolaidd. |
| Mae dewisiadau llysieuol ar y fwydlen. | ✓ | Mae dewisiadau llysieuol ar gael bob amser. |
| Mae'r fwydlen yn cynnwys dewisiadau i gleifion o gefndiroedd crefyddol/ethnig penodol. | ✓ | Mae'r mwyafrif helaeth o gleifion y Bwrdd Iechyd yn gofyn am fwyd o'r bwydlenni safonol sydd ar gael. Dywedwyd mai prin iawn oedd y ceisiadau am ddewisiadau bwyd eraill y tu hwnt i hynny.<br>Nid yw'r sefyllfa hon yn syndod o ystyried y boblogaeth gyffredinol sy'n cael ei gwasanaethu yng Ngorllewin Cymru.<br>Ni welwyd tystiolaeth i nodi na fyddai anghenion penodol yn cael eu diwallu, hyd yn oed ar gyfer nifer fach o gleifion. |
| Mae trefniadau ar waith i nodi cleifion a allai fod angen cymorth arbennig i fwyta eu bwyd. | ✓ | Mewn rhai wardiau mae symbolau'n cael eu rhoi uwchben gwelyau cleifion i nodi cleifion ag anghenion arbennig. |
| Mae cleifion yn cael cymorth i fwyta lle bo angen. | ✓ | Yn ystod ein gwaith arsylwi ar y wardiau gwelwyd bod cleifion yn cael cymorth lle'r oedd hynny'n angenrheidiol.<br>Gwelsom fod rhai wardiau yn dibynnu'n bennaf ar gynorthwywr gofal iechyd i gynorthwyo cleifion, er bod Nyrs Gofrestredig yn gyfrifol fel arfer. |
| Mae cleifion yn gallu cael byrbrydau pan nad yw hi'n amser bwyd. | ✓ | Roedd trefniadau ar gyfer darparu byrbrydau ar y wardiau yn amrywio ar draws y Bwrdd iechyd ac mae angen polisi mwy cyson.<br>Yn gyffredinol mae'r ceginau ar agor tan yn gynnar min nos. Roedd yr adroddiadau o'r wardiau'n amrywio ynglŷn â'r hyn y gellir ei ddarparu y tu allan i amserau bwyd arferol. Dywedodd rhai staff ei bod yn rhannol ddibynnol ar bwy oedd ar ddyletswydd yn y gegin.<br>Byddai datganiad penodol o ddarpariaeth gwasanaeth y tu allan i oriau gwasanaethu arferol yn helpu i egluro'r sefyllfa i staff y wardiau ac yn atgyfnerthu cyfrifoldebau staff arlwyo i ymateb i geisiadau. Dywedwyd wrthym fod y gwaith datblygu hwn ar y gweill. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| A all cleifion archebu dognau o wahanol faint? | ✓ | Roedd cleifion yn gallu archebu dognau o wahanol faint er inni ganfod bod y dewis o faint dogn wedi'i eithrio o'r fwydlen yn YB.<br>Beirniadaeth gyffredin yw nad oes gwahaniaeth yn aml rhwng dognau bach a chanolig. Mae swmp-ddosbarthu yn boblogaidd oherwydd ei fod yn cynnig gwell hyblygrwydd mewn sawl ffordd. Gellir addasu maint y dogn a rhannau'r pryd i adlewyrchu archwaeth claf adeg y pryd bwyd.<br>Mae angen darparu hyfforddiant gloywi ar reoli dognau o bryd i'w gilydd. |
| Mae cymeriant bwyd cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy ddefnyddio'r Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan. | ✓/✗ | Mewn egwyddor, mae gan gleifion sydd mewn perygl canolig ac uchel siart cofnodi bwyd i gofnodi cymeriant bwyd. Yn ymarferol, gwelsom fod pa mor aml y cwblheir siartiau'n amrywio.<br>Dywedodd staff ei bod hi'n anodd cofnodi'r cymeriant bwyd yn gywir os nad oedd gwaith arsylwi yn cael ei wneud ar yr adeg y mae'r cleifion yn gorffen eu prydau bwyd. Weithiau maent yn dibynnu ar yr hyn mae'r claf y ei ddweud am faint mae wedi bwyta. |
| Mae'r siart cofnodi bwyd yn cael ei gydlofnodi gan nyrs gofrestredig ar ddiwedd pob shifft. | ✓/✗ | Mae'r siartiau bwyd yn cael eu defnyddio ac ar gael ar y wardiau, er nad yw'n ymddangos bod y rhain yn cael eu cwblhau yn union ar ôl yr amserau bwyd, ac roedd bylchau yn aml yn y cardiau a adolygwyd.<br>Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi trefnu archwiliad Hanfodion Gofal o'i holl ysbytai ar gydymffurfio â siartiau bwyd a sgrinio ac fe'i chynhelir yn y dyfodol agos. |
| Mae siartiau mewnbwn ac allbwn hylifau dyddiol ac wythnosol yn cael eu defnyddio. | ✓/✗ | Mae siartiau Hylif Cymru gyfan ar waith ond nid ydynt bob amser yn cael eu llenwi yn gyson. Yn gyffredinol, mae staff yn ystyried eu bod wedi'u cynllunio'n wael ac yn anodd eu defnyddio. Dywedodd staff nad ydynt yn rhoi digon o le i'r holl wybodaeth maent am ei chofnodi. |
| Mae siartiau mewnbwn ac allbwn hylifau wythnosol yn cael eu cydlofnodi gan nyrs gofrestredig unwaith y dydd. | ✓/✗ | Nid oedd siartiau hylif yn cael eu cydlofnodi bob amser gan nyrs hyfforddedig. |

## Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth

36. Mae barn cleifion ar fwyd mewn ysbyty a gwasanaethau arlwyo'n cael ei gasglu mewn sawl ffordd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud hyn yn fwy cyson gan rannu'r canlyniadau yn ehangach. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
    - mae mentrau i sefydlu barn cleifion ar fwyd a gwasanaethau arlwyo yn cael eu casglu a'u dadansoddi ac yn destun adolygiad mewnol; ac
    - mae'r arolwg cleifion a gynhaliwyd fel rhan o'r archwiliad hwn wedi amlygu amrywiaeth o safbwyntiau sydd angen eu hystyried fel rhan o'r gwaith cynllunio a monitro arferol.

37. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 5: Casglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae yna weithgareddau rheolaidd i gasglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo, a'u profiad ohonynt. | ✓ | Mae'r adrannau arlwyo lleol yn cynnal arolygon boddhad cleifion yn gyfnodol ar wahân. Er y bydd angen parhaus i ganolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol yn lleol, erbyn hyn hefyd mae yna botensial i gydgysylltu'r gwaith hwn ar draws y Bwrdd Iechyd. Gellir rhannu'r dysgu wedyn yn fwy eang a, lle bo'n briodol, gellir canfod atebion cyffredin. Dros amser dylai'r gweithgarwch hwn gynorthwyo hefyd i lywio dull strategol cyson o ddarparu gwasanaeth. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynrychioli mewn grwpiau cynllunio arlwyo. | ✓ | Mae'r gwaith gweithredu safonau maeth yn cynnwys y CICau perthnasol i raddau helaeth. Mynychodd cynrychiolwyr y CIC ymarferion ansawdd bwyd fel rhan o'r adolygiad hwn.<br>Pan fo grwpiau defnyddwyr wedi cymryd rhan mewn prosesau arlwyo a maeth, adroddir bod hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, grŵp defnyddwyr cleifion allanol yn Sir Gaerfyrddin. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cymryd rhan mewn adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth. | ✓ | Mae cleifion wedi cymryd rhywfaint o ran mewn adolygiadau ansawdd.<br>Pan fo cleifion wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mae eu cyfraniad wedi bod yn ddefnyddiol, a dylid eu hannog i gymryd rhan.<br>Mae hyn wedi cynnwys defnyddio rhai hanesion cleifion i lywio datblygiad y gwasanaeth. |
| Mae trefniadau effeithiol a cydgysylltiedig ar waith i ddefnyddio barn cleifion a phrofiadau grwpiau staff i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaeth. | ✓/✗ | Mae lle i wella i ba raddau y mae safbwyntiau a phrofiadau cleifion a grwpiau staff yn cael eu rhannu'n lleol ac ar draws y Bwrdd Iechyd. |

## Arolwg cleifion

38. Mae trefniadau monitro'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys cyfuniad o arolygon boddhad cleifion achlysurol ac arolygon boddhad blynyddol cleifion, a rheolwyr a goruchwylwyr yn cynnal rhaglen ffurfiol o wiriadau ar hap a monitro ansawdd. Gellid cynnwys y rhaglen yn fwy cyson yng ngweithgareddau arferol YCLI.

39. Dywedodd cyfran sylweddol o gleifion yn ein harolwg nad oeddynt yn dewis maint dogn eu bwyd. Roedd tua 20 y cant o gleifion yn credu nad oeddynt yn cael digon i'w fwyta.

40. Mae dadansoddiad cryno (Ffigur 9) o farn cleifion a gasglwyd yn ystod yr archwiliad yn awgrymu bod cyfle i'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau asesiad maeth a chynnwys cleifion mewn gwaith ym maes iechyd maethol. Yn aml, nid oedd cleifion yn cofio cael eu pwyso na siarad â staff nyrsio neu, os oedd yn berthnasol, deietegwyr, am eu hanghenion maeth.

